CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

18 Gorffennaf 2023, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, S Jones, E Williams, D ap Rhobert, A Wyn, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C McGregor, A Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Williams. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – D ap Rhobert eitem 6.1
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20.06.23. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D ap Rhobert yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Llwybrau cyhoeddus – Nid yw Llwybr troed 23/021/1 wedi cael ei dorri fel y cytunwyd. Cynigiodd y Cynghorwyr E Williams a W Williams dynnu lluniau o'r llwybr.
4.2	Arwyddion yn y gilfan ger y sgwâr – Cytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf
4.3	Cyffordd Bedd y wrach - Cytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf
4.4	Arwydd Ffordd yn fflachio - Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris am oleuadau a bydd yn ei anfon ymlaen at yr aelodau. Dywedodd y Cyng A Wyn fod Llangaffo yn defnyddio system fflachio golau a chynigiodd siarad â'r cyngor cymuned am gyngor
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Cau Ffordd dros dro – Lon Gwenfro, Llanbedrgoch – gwybodaeth yn unig.
	Cynllunio
5.2	LUE/2023/19 - Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon i gadarnhau cychwyn cyfreithlon ar ganiatâd 23C325 (newid defnydd yr adeilad allannol i annedd, addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy a storfa goed) yn Bryn Brochan, Talwrn – dim sylwadau
5.3	FPL/2023/175 - Cais llawn i greu pit slyri yn Fferm Hendre Farm, Tregaian – dim sylwadau
	Llofnod…….Cadeirydd 19.09.23

5.4	FPL/2022/186 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i faes carafan teithiol, newid defnydd yr adeilad allanol presennol i ddefnydd ategol i'r maes carafan ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch - Cytunwyd i wrthwynebu'r cais am yr un rhesymau ag yn flaenorol - nid yw'r ffordd yn addas ar gyfer carafanau. Hefyd rhesymau iechyd a diogelwch. Mae y cais wedi ei "alw i mewn"
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Y Glorian – Mae cais am rodd ariannol wedi dod i law. Cytunwyd i dalu £300 - cynigwyd gan y Cyng E Williams ac eiliwyd gan y Cyng A Wyn.
6.2	Adroddiad Archwilio Mewnol - Dau sylw: Methiant i adolygu a chymeradwyo Rheolau Ariannol, Rheolau Sefydlog, Cofrestr Risg a Chofrestr Asedau ar sail blynyddol er mwyn sicrhau cywirdeb a phriodoldeb. Methiant i gyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth yn unol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd y Clerc yn rhoi sylw i'r materion hyn.
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Costau Aelodau – Trafodwyd taliad blynyddol costau aelodau ynghyd ag unrhyw daliad ychwanegol i unrhyw aelod sydd wedi gwneud unrhyw beth eithriadol i'r Cyngor – ni chafwyd unrhyw enwebiadau.
7.2	Adolygiad cyllid - Adolygiad Cyllid – Mae'r Clerc wedi paratoi adolygiad ariannol cyfnodol. Mae gan y Cyngor ddigon o adnoddau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Gor-yrru Talwrn - Mae'r Clerc wedi gwahodd yr Heddlu i gyfarfod y Cyngor ond nid yw wedi derbyn ymateb. Bydd yn anfon gwahoddiad pellach i gyfarfod mis Medi.
8.2	Seddi gwâg ar y Cyngor - Cafodd seddi gwag eu hysbysebu y llynedd yn dilyn yr etholiadau. Cytunwyd y byddai aelodau yn ceisio recriwtio i lenwi'r seddi gwâg.
8.3	Ymddiheurodd y Cyng A Wyn am fethu mynychu pob cyfarfod misol. Mae hyn oherwydd ei fod yn gorfod mynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned eraill yn ei rôl fel Cynghorydd Sir. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd W Williams ar ei sgiliau cadeirio.
	Llofnod…….Cadeirydd 19.09.23

8.4	Dywedodd y Cyng D Rees y bydd dogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi'r wythnos hon gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch y posibilrwydd o gau gorsafoedd tân (un ohonynt yw Biwmares). Anogodd yr aelodau i ymateb. Bydd y Clerc yn anfon y ddogfen ymlaen pan ddaw i law.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Cerbydau yn gwrthod ildio yn Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 19.09.23